# Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

## SJR(2)-16-06(p.3)

### Dyddiad: Dydd Iau 23 Tachwedd 2006
### Lleoliad: Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd
### Teitl: Diweddariad ar y Strategaeth Mentrau Cymdeithasol ar gyfer Cymru

**Pwrpas: Rhoi'r newyddion diweddaraf i'r Pwyllgor ar y cynnydd a wnaethpwyd tuag at gyflawni nodau'r Strategaeth Mentrau Cymdeithasol ar gyfer Cymru.**

**Crynodeb/Argymhellion**

Bod y Pwyllgor yn nodi'r cynnydd sy'n cael ei wneud gan lawer o fudiadau a mentrau, yn ogystal ? lywodraeth Cynulliad Cymru, sydd i gyd am weld datblygiad a thwf y sector mentrau cymdeithasol yng Nghymru.

**Cefndir**

Derbyniodd y Pwyllgor wybodaeth ar y sector mentrau cymdeithasol yng Nghymru a chyflwyniad gan aelodau'r Rhwydwaith Mentrau Cymdeithasol ac ymarferwyr o'r Cyd-weithgor Mentrau Cymdeithasol yn ei gyfarfod ar ddydd Mercher 15 Mawrth 2006. Dangosodd y cyflwyniad ddyfnder y sector yng Nghymru a chafodd dderbyniad gwresog. Mae'r Papur Pwyllgor hwn yn ymdrech i adeiladu ar y cyflwyniad hwnnw.

**Ystyried**

Mae cryn waith yn cael ei wneud i sicrhau bod y pedwar maes blaenoriaeth a nodir yn y Strategaeth Mentrau Cymdeithasol ar gyfer Cymru yn cael eu cyflawni a bod y sector yn derbyn y gefnogaeth sydd ei angen arno i ffynnu yng Nghymru.

Y pedwar maes blaenoriaeth yw:

- Creu Amgylchedd sy'n Galluogi;
- Gwneud Mentrau Cymdeithasol yn Fusnesau Gwell;
- Sefydlu Gwerth Mentrau Cymdeithasol; a
- Datblygu Cyfleoedd Newydd.

Mae tabl yn nodi'r cynnydd a wnaethpwyd yn erbyn y pedwar maes blaenoriaeth, wedi ei rannu'n 32 o bwyntiau gweithredu ar wahân wedi ei amgáu yn Atodiad 1. Mae'r tabl yn ystyried llawer o'r camau a gymerwyd gan aelodau'r Rhwydwaith Mentrau Cymdeithasol a'r Cyd-weithgor Mentrau Cymdeithasol.

Gwelwyd gwelliant yn y gwaith sy’n cael ei wneud o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru rhwng Adrannau i gynorthwyo’r sector; gwelwyd hyn yn fwyaf arbennig yn y gwaith a wnaethpwyd ar y cyd rhwng yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (ACCA) a’r Adran Menter, Arloesi a Rhwydweithiau (AMARh).

Yn ddiweddar cafwyd cyflwyniad ar y cyd gan swyddogion y ddwy adran ar sut y mae’r Cynulliad yn cefnogi’r sector yn y gynhadledd "Reclaiming the Economy" a drefnwyd gan gynhaliwyd Sefydliad Cymru er Ymchwil i Fentrau Cydweithredol (WIRC) yn Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd.

Cyflwynwyd papur ar Mentrau Cymdeithasol yn ddiweddar i’r Cyngor Partneriaeth Busnes gan Simon Harris, Cadeirydd y Rhwydwaith Menter Cymdeithasol, gyda chymorth o swyddogion fy adran.

Ceir enghreifftiau pellach o gydweithredu rhwng y ddwy Adran ym meysydd caffael,mentora, a hyrwyddo’r sector trwy gymryd rhan yn Wythnos Menter:

## Caffael

Mewn cydweithrediad â Gwerth Cymru, mae ACCA ac AMARh yn trefnu pedwar digwyddiad caffael ledled Cymru yn ystod Tachwedd 2006 ar gyfer mentrau cymdeithasol sy’n barod i gyflwyno tendrau am y tro cyntaf neu sy’n awyddus i wella eu sgiliau tendro.

Mae’r digwyddiadau hyn yn ychwanegol at y seminarau sydd wedi eu trefnu ar y cyd gyda’r sector gwirfoddol, ac sydd wedi derbyn llawer mwy o geisiadau gan rai a oedd am fod yn bresennol nag a oedd o lefydd ar gael, ac sy’n ymateb yn benodol i anghenion a nodwyd gan y sector mentrau cymdeithasol.

Gan ddangos bod llwyddiant yn bosibl, mae prosiect Datblygu Cyflenwyr Lleol yr AMARh wedi bod yn allweddol yn ddiweddar trwy gynorthwyo un fenter gymdeithasol yn y Cymoedd i sicrhau contract gwerth £1.3miliwn.

## Mentora

Er mwyn darparu adnodd ar gyfer y sector ac sydd wedi’i gynllunio’n unswydd ar ei gyfer, mae ACCA ac AMARh wrthi ar hyn o bryd yn datblygu prosiect peilot yn y Gogledd a fydd yn canfod anghenion mentora penodol y sector a’r adnoddau a’r sgiliau sydd eu hangen i ddiwallu’r anghenion hynny. Bydd y prosiect yn para am naw mis o fis Tachwedd 2006 ymlaen.

Cynhaliwyd dosbarthiadau meistr ar Fentrau Cymdeithasol yn ystod Chwefror a Mawrth 2006, ac a hwyluswyd gan Jerr Boschee, sylfaenydd yr Institute of Social Enterprise, Minnesota. Roedd dros 75 o arweinwyr mentrau cymdeithasol yn bresennol yn y dosbarthiadau meistr llwyddiannus hyn. Derbyniodd deg o fentrau cymdeithasol eraill ymgynghoriadau un i un gyda Mr Boschee.

## Wythnos Menter

Cynhaliwyd yr Wythnos Menter rhwng 13 ac 17 Tachwedd 2006 a'i nod oedd dathlu a thynnu sylw at fentergarwch yn ei holl amrywiaeth. Roedd dydd Iau'r wythnos honno (16 Tachwedd) wedi ei neilltuo'n benodol ar gyfer Mentrau Cymdeithasol. Cynhaliwyd digwyddiadau gan y sector i ddangos y llwyddiant a'r holl bosibiliadau sydd ar gael i fentrau cymdeithasol.

Maes cymharol newydd lle gwelwyd cydweithio rhwng AMARh ac ACCA yw datblygiad deunydd y Cwricwlwm Dynamo. Fel rhan o'r gwaith hwn, bydd unrhyw gyfeiriad at fusnes yn cynnwys cyfeiriad at fentrau cymdeithasol. Mae'r deunydd Dynamo ar gyfer pobl ifanc 16 -19 oed bellach yng nghamau olaf ei ddatblygiad ac mae menter gymdeithasol yn elfen sylfaenol ohono. Rhoddir pwyslais ar annog myfyrwyr i sefydlu menter gymdeithasol ac i sylweddoli bod gan fentrau cymdeithasol rôl benodol a gwerthfawr i'w chwarae wrth helpu i greu economi gref, gynaliadwy a chynhwysol.

Yn ystod cwestiynau yn y Cynulliad ar 5 Gorffennaf cytunais i gwrdd ag Andrew Davies, y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau i drafod y ffordd orau i AMARh gefnogi nodau prosiectau adfywio cymunedol a mentrau cymdeithasol. Cynhelir y cyfarfod hwn yn ddiweddarach y mis yma.

## Cyllid i Fentrau Cymdeithasol

Mae fy swyddogion wedi cynnal cyfres o gyfarfodydd gyda phartneriaid allanol yn ogystal â chynrychiolwyr sefydliadau ariannol yn y sector preifat a'r trydydd sector. Nod y cyfarfodydd hyn oedd edrych ar ddau fater, dyfodol cyllid i'r sector a sefydlu Sefydliad Cyllid Datblygu Cymunedol (SCDC) i Gymru gyfan. Mae adroddiad interim y Grwp Cyllid yn awgrymu bod y rownd newydd o gronfeydd strwythurol gyda'i bwyslais ar greu swyddi a thwf economaidd yn allweddol i ariannu'r sector dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Caiff y syniad hwn ei ddatblygu pan fydd yr amser yn briodol. Mae'r adroddiad yn awgrymu hefyd bod y galw am SCDC Cymru gyfan yn isel. Fodd bynnag, canfuwyd bwlch cyllido ym maes microgyllid i fentrau bach, canolig a chymdeithasol.

Mae trafodaethau'n parhau gyda WEFO a'n partneriaid yn y sector mentrau cymdeithasol ac o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru ar ddatblygu fframwaith strategol ar gyfer datblygu economaidd cymunedol. Bydd y fframwaith hwn yn sicrhau bod mentrau cymdeithasol yn gallu manteisio ar y cronfeydd cydgyfeirio a bwrw ymlaen gyda'r camau a nodwyd yn y Strategaeth Mentrau Cymdeithasol ar gyfer Cymru.

## Goblygiadau Ariannol

Nid oes materion ariannol yn gysylltiedig â'r papur hwn.

## Themâu Trawsbynciol

Mae hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol yn un o brif them?trawsbynciol Llywodraeth Cynulliad Cymru ac mae hybu menter gymdeithasol yn elfen ategol o hynny.

**Camau i'w cymryd gan y Pwyllgor Pwnc**

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r cynnydd a wnaethpwyd.

Edwina Hart AC OBE
Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio
Pwynt Cyswllt: Karyn Pittick, Yr Uned Mentrau Cymunedol a Chynhwysiant Ariannol, ffôn 029 2080 1282